Image not found or type unknown

# Defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaeth

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 Mawrth 2019

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/gofal-a-chymorth-yn-y-cartref/defnyddio-taliadau-uniongyrchol-i-brynu-gwasanaeth am y fersiwn diweddaraf.

Dysgwch fwy am ddefnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaeth

## Cyflwyniad i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaeth

Gall pobl brynu gwasanaeth gyda'u taliad uniongyrchol, megis talu i fynychu gweithgaredd neu ddosbarthiadau addysg o'u dewis neu brynu gwasanaeth gofal a chymorth.

Caiff y rhain eu trefnu a'u rheoli gan bwy bynnag sy'n darparu'r gwasanaeth.

Bydd yr unigolyn yn talu i gymryd rhan neu ddefnyddio'r gwasanaeth ond nid ydyn nhw o reidrwydd yn ymwneud â threfnu'r gweithgareddau.

Hefyd, gellir cyfuno'r taliadau â derbynwyr taliadau uniongyrchol eraill i redeg gwasanaeth neu weithgaredd.

## Astudiaeth achos: sut helpodd taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaeth garddio

Daeth grŵp o bobl ag anghenion tebyg i adnabod ei gilydd trwy glwb galw heibio a oedd yn cael ei redeg gan elusen leol.

Roedden nhw eisiau parhau i weld ei gilydd wedi iddyn nhw adael eu cyrsiau astudio, yn ddelfrydol er mwyn gwneud rhywbeth yn yr awyr agored.

Rhoddwyd cynnig gan riant un o aelodau'r grŵp i rentu rhandir ar eu cyfer. Aethant ati i gyfuno eu taliadau uniongyrchol er mwyn cyflogi garddwr i'w helpu i blannu a thyfu amrywiaeth o lysiau a blodau.

Mae hyn yn helpu eu lles a hefyd yn eu helpu i gynnal eu lefelau o weithgarwch corfforol.

Yn ddiweddarach yn y tymor, maen nhw'n bwriadu cyflogi rhywun i'w dysgu sut i goginio gyda'r llysiau maen nhw wedi'u tyfu.

## Eisiau eich adborth

Helpwch ni i wella Taliadau uniongyrchol: Canllaw drwy gael dweud eich dweud amdano yn ein harolwg pedair cwestiwn byr.